

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

Mwgyn

Yn y gerdd rydd hon, cafwyd dehongliad diddorol a gwahanol o'r testun. Cyfeirio at Bort Talbot y mae'r bardd, ac ystyr 'bannau' yn ei gerdd ef yw 'cornel' neu 'ran'. Dyma artist o fardd, a gallwn weld Port Talbot yn 'glaferio cerbydau', ac yn 'gyfoeth o gamerâu'. Dyma Bort Talbot y rhai sy'n edrych arni drwy 'gulni gwydr car', dyma dref 'sy'n llwm o lawn'. Ond nid dyma Bort Talbot y bardd. Mae o'n gweld tref lle mae cymuned glos yn parhau â'i ffordd o fyw. Dyma'r wir Bort Talbot.

Mae yma gynildeb a delweddu da: 'traddodiad mewn tomato', 'cloch eglwys yn cusanu', a dwylo sy'n brwydro 'i greu gwledd i wyrion drwy nesa.' Dyma gerdd a ddatgelodd rywbeth gwahanol inni ar bob darlleniad – yn union fel Port Talbot y bardd. Ysywaeth, erystal y gerdd hon, mae ôl brys arni, yn enwedig yn y pennill clo. Pe byddai'r bardd wedi mynd ati i ddatblygu'r thema yn helaethach gan ddefnyddio rhagor o'r cwota o linellau na chwta ddeugain llinell, byddai wedi dringo gryn dipyn yn uwch. Serch hynny, dyma fardd i'w wyllo.